



Datblygu **meddwl**



Datblygu **cyfathrebu**



Datblygu **rhif**

Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol

Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol ar gyfer Blwyddyn 5

Trosolwg



Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol ar gyfer Blwyddyn 5

Trosolwg

- Cynulleidfa** Athrawon yng Nghyfnod Allweddol 2, yn enwedig y rhai sydd â dosbarthiadau Blwyddyn 5; awdurdodau lleol; tiwtoriaid hyfforddiant cychwynnol athrawon; a phobl eraill sydd â diddordeb mewn addysg.
- Trosolwg** Mae'r deunyddiau newydd hyn yn cefnogi dysgu, addysgu ac asesu sgiliau dysgwyr Blwyddyn 5. Maen nhw wedi eu dylunio i gynorthwyo ysgolion wrth roi'r cwricwlwm ysgol diwygiedig a'i fframweithiau ar waith.
- Camau i'w cymryd** Gofynnir i uwch reolwyr ysgolion ac ymgynghorwyr awdurdod lleol i godi ymwybyddiaeth o'r deunyddiau newydd hyn o fewn eu hysgolion, ac i annog athrawon i ddefnyddio'r deunyddiau er mwyn cefnogi eu ffocws ar ddatblygu sgiliau dysgwyr.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0800 083 6003
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 0870 242 3206 (cyfrwng Cymraeg)
0845 603 1108 (cyfrwng Saesneg)
Ffacs: 01767 375920
e-bost: dcells1@prolog.uk.com
- Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau
- Dogfennau cysylltiedig** *Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol: Datblygu meddwl; Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol: Datblygu cyfathrebu; Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol: Datblygu rhif* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Beth yw'r DASDau?	3
Sut bydd y DASDau o gymorth i athrawon a dysgwyr?	4
Beth yw nodweddion allweddol y DASDau?	5
Sut mae'r DASDau yn cynnig cyfleoedd asesu?	7
Datblygiadau i'r dyfodol	10
Rhestr o adnoddau DASDau	11
Cydnabyddiaethau	12

Cyflwyniad

Croeso i'r gyfres gyntaf o Ddeunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol (DASDau). Mae'r adnoddau newydd hyn yn cefnogi dysgu, addysgu ac asesu sgiliau dysgwyr ym Mlwyddyn 5.

Mae'r trosolwg yma'n amlinellu'r hyn mae'r DASDau yn ei gynnig i athrawon a'u dysgwyr, a sut mae'r adnoddau yn gymorth i ddatblygu sgiliau yng nghyd-destun cwricwlwm yr ysgol.

Yn ystod 2007–08, bu cannoedd o athrawon Blwyddyn 5 a'u dosbarthiadau'n treialu ac yn gwneud sylwadau ar werth yr adnoddau hyn a pha mor hawdd oedden nhw i'w defnyddio. Y deunyddiau rydyn ni'n awr yn eu darparu ar gyfer pob ysgol yw cynnyrch cyntaf y cydweithredu hwn. Mae gwaith datblygu a chynnal peilotiaid yn parhau drwy gydol blwyddyn ysgol 2008–09, er mwyn anfon deunyddiau pellach i ysgolion i ychwanegu at y banc hwn o adnoddau dewisol a'i ymestyn.

Mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) hefyd wedi darparu pecyn Hyfforddiant mewn Swydd (HMS) ar gyfer awdurdodau lleol sy'n ymdrin â'r athroniaeth a'r dull sy'n sail i ddatblygu'r DASDau. Bwriad yr adnodd HMS hwn yw cynorthwyo hyfforddiant a chefnogaeth leol.

Beth yw'r DASDau?

Mae'r DASDau yn cefnogi dysgu o fewn cyd-destun cwricwlwm yr ysgol ar gyfer Blwyddyn 5. Dylai'r adnoddau hyn fod o gymorth i athrawon ddatblygu ac asesu'n ffurfiannol meistrolaeth y dysgwyr i gyd ar sgiliau.

Mae'r DASDau yn ymdrin â'r tri maes sgiliau, sef datblygu meddwl, cyfathrebu a rhif, ar draws y cwricwlwm. Darperir yr adnoddau yma fel adnoddau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar wahân.

Ar gyfer pob un o'r meysydd sgiliau, mae'r pecyn yn cynnwys y canlynol:

- canllawiau i athrawon
- llyfrynau gweithgareddau
- CD-ROMs sy'n cwmpasu'r holl ddeunyddiau ysgrifenedig, adnoddau electronig ar gyfer y gweithgareddau a'r clipiau fideo i roi esiamplau o asesiad yr athro/athrawes.

Ceir rhestr lawn o'r deunyddiau ar dudalen 11.

Gellir defnyddio'r adnoddau unigol yn rhannol neu yn eu cyfanrwydd; maen nhw'n ddewisol ac yn hyblyg.

Sut bydd y DASDau o gymorth i athrawon a dysgwyr?

Bydd ar athrawon eisiau defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i nodi ac asesu meistrolaeth dysgwyr unigol ar sgiliau. Cynlluniwyd y deunyddiau i gynorthwyo athrawon i gasglu tystiolaeth berthnasol drwy gefnogi:

- datblygiad sgiliau dysgwyr
- asesiad ffurfiannol o cynnydd yn y sgiliau hyn.

Dengys yr enghreifftiau yn y canllawiau i athrawon sut y gallai dysgwyr arddangos cynnydd, drwy eu dull o fynd i'r afael â thasgau a'r deilliannau maen nhw'n eu cael.

Bwriad y DASDau yw hyrwyddo dysgu ac addysgu effeithiol drwy wneud y canlynol:

- ysgogi'r dysgwr i gymryd diddordeb ac archwilio
- hyrwyddo trafodaeth a gwneud penderfyniadau ymysg dysgwyr (e.e. beth yw'r ffordd orau i fynd i'r afael â thasg)
- annog dysgwyr i gyfiawnhau syniadau a dewisiadau (e.e. yr arfau/y strategaethau a ddefnyddiwyd)
- tynnu sylw at fyfyrddod y dysgwr ar ei ddysgu ei hun
- pwysleisio asesiad gan gyfoedion a hunanasesiad i hysbysu'r camau nesaf
- cynorthwyo athrawon wrth iddyn nhw benderfynu beth yw'r ffordd orau i drefnu a rheoli dysgu.

Beth yw nodweddion allweddol y DASDau?

Cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol

Mae'r DASDau wedi eu cynllunio i gynorthwyo ysgolion i adolygu methodoleg addysgu a gwella'r dysgu. Maen nhw'n gwneud hyn drwy gynnig cyfleoedd i annog dysgwyr i gymryd mwy o feddiant o'u dysgu eu hunain. Maen nhw'n gwneud awgrymiadau ar sut i gyflawni gweithgaredd yn hytrach na rhoi cyfarwyddyd i'r athro/athrawes.

Wedi eu cynllunio ar gyfer defnydd hyblyg

Mae'r deunyddiau wedi eu bwriadu i gael eu defnyddio mewn dysgu ac addysgu bob dydd, a gellir eu hymgorffori mewn amrywiaeth eang o gynlluniau dysgu a chynlluniau gwaith.

Er bod pob gweithgaredd wedi ei osod yng nghyd-destun pynciau neu feysydd pwnc penodol, mae gan y rhan fwyaf awgrymiadau ar gyfer defnydd pellach, gan gynnwys datblygiad o fewn pynciau/meysydd eraill.

Gan fod anghenion dysgwyr i gyd yn wahanol, anogir athrawon i addasu'r gweithgareddau i ffitio'n well gyda'r anghenion hyn. Rhoddir enghreifftiau sy'n dangos sut mae rhai athrawon wedi defnyddio'r deunyddiau hyn yng nghanllawiau'r athrawon.

Hybu dysgu cydweithredol

Mae cydweithrediad effeithiol yn y dosbarth yn allweddol i wella ansawdd y dysgu. Bydd athrawon eisiau sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn teimlo bod y dosbarth yn amgylchedd diogel lle gallan nhw ystyried a mentro cymryd risg gyda'u syniadau.

O fewn y DASDau (Datblygu meddwl a chyfathrebu), mae awgrymiadau wedi eu cynnwys ynghylch gwahanol ffyrdd o weithio cydweithredol. Awgrymiadau yw'r rhain y bydd athrawon efallai yn dymuno eu defnyddio os mai'r rhain sy'n fwyaf addas i'w dysgwyr ac i'w haddysgu nhw. Defnyddiwyd eiconau i dynnu sylw at yr awgrymiadau hyn.



Tynnu sylw at bwysigrwydd gofyn cwestiynau

Mae gofyn cwestiynau 'da' yn ffordd werthfawr o sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd, yn canolbwyntio ar broses dysgu, yn gwneud cysylltiadau ac yn myfyrio ar eu dysgu. Mae enghreifftiau o dechnegau holi defnyddiol yn cynnwys:

Defnyddio 'Cwestiynau Mawr' gyda dysgwyr er mwyn gosod sefyllfa'r dasg

Gosodir amcanion dysgu fel cwestiynau, y gellir eu harchwilio'n agored.

Enghreifftiau o 'Gwestiynau Mawr' a ddefnyddir yn y DASDau yw:

Datblygu cyfathrebu: 'Beth all wyneb ei ddweud wrthym?'

Datblygu rhif: 'Sut gallem ni fesur amser pe na bai ond 88 niwrnod mewn blwyddyn?'

Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol ar gyfer Blwyddyn 5 | Trosolwg

Defnyddio cwestiynau cyfeiriedig i ddatod y broses ddysgu

Dylai hyn hwyluso dealltwriaeth y dysgwyr o'r modd maen nhw'n dysgu neu wedi dysgu. Mae hyn yn rhan hanfodol o drosglwyddo sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o un cyd-destun i'r llall.

Pwysleisio rôl allweddol meini prawf llwyddiant

Lle bo'n briodol i'r dasg, argymhellir bod y meini prawf ar gyfer mesur llwyddiant deilliannau yn cael eu penderfynu gan y dysgwyr eu hunain, gyda chefnogaeth gan yr athro/athrawes fel bo angen.

Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n defnyddio meini prawf llwyddiant yn cynnwys:

Datblygu meddwl: 'Perfformio barddoniaeth'

Datblygu cyfathrebu: 'Beth yw elfennau perfformiad da o adrodd stori?'

Datblygu rhif: 'Dylunio teils', 'Dylunio clociau'

Defnyddio arfau a strategaethau i strwythuro dysgu

Mae rhai o weithgareddau'r DASDau yn awgrymu pa arfau a strategaethau¹ y gellid eu defnyddio i helpu dysgwyr i strwythuro, neu, ar adegau, ddatod eu dysgu.

Er enghraifft:

Datblygu meddwl: Mae 'Her y traeth' yn awgrymu defnyddio rhestr ddiemwnt a/neu fap cylch.

¹Gellir dod o hyd i arfau a strategaethau cyffredinol yn llyfryn APADGOS ar y we *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn y dosbarth*. Mae'r llyfryn hwn hefyd yn egluro pam mae'r arfau a'r strategaethau yn ddefnyddiol i symud dysgu yn ei flaen. Cyswllt y we: www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Sut mae'r DASDau yn cynnig cyfleoedd asesu?

Mae'r DASDau yn gysylltiedig â chyhoeddiad APADGOS *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (2008). Mae'r fframwaith sgiliau yn rhoi arweiniad ynghylch parhad a dilyniant wrth i ddysgwyr ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm. Mae'r deunyddiau yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos tystiolaeth mewn ymddygiadau a deilliannau, allai fod yn enghreifftiau o egwyddorion² a chelloedd³, o'r fframwaith sgiliau, o fewn Datblygu meddwl, cyfathrebu neu rif. Mae canllawiau i athrawon ar gyfer pob un o'r meysydd sgiliau hyn yn rhoi arweiniad ac enghreifftiau.

Adran o'r fframwaith sgiliau yn dangos egwyddor a chelloedd

Gofyn cwestiynau	Gofyn pam, beth, sut, ble, pryd, ac ati.	Gofyn cwestiynau perthnasol i'r cyd-destun a gwrandao cyn gofyn mwy o gwestiynau.	Gofyn cwestiynau perthnasol a dechrau cysylltu cwestiynau â'i gilydd yn ddilyniannau. Rhoi rhesymau dros ddewis eu cwestiynau.	Gofyn cwestiynau sy'n adeiladu ar ymatebion i gwestiynau cynharach.	Gofyn cwestiynau mwy treiddgar.	Adnabod y broblem a phennu'r cwestiynau i'w datrys.
						
Egwyddor				Cell		

Dilyniant o fewn y fframwaith sgiliau

Er mwyn eglurder ac am resymau dylunio ymarferol, mae'r fframwaith sgiliau wedi ei gyflwyno fel continwwm chwe cholofn ac mae'n nodi agweddau ar ddilyniant o'r Cyfnod Sylfaen hyd ôl-16 ar gyfer y dysgwr 'canolig' tybiannol.

Disgrifir dilyniant ar dudalen 5 y fframwaith sgiliau. Oherwydd mai cylchol yn hytrach na llinol yw datblygiad sgiliau, ceir dilyniant mewn sgiliau drwy gynyddu'r her yn y cyd-destunau y datblygir sgiliau drwyddyn nhw. Mae hyn yn golygu ei bod yn hollol bosibl i rai o'r sgiliau sydd ar 'ddiwedd' y continwwm chwe cholofn yn y fframwaith gael eu harddangos gan ddysgwyr eithaf ifanc – er enghraifft, y gallu i werthuso'r hyn sydd wedi ei gyflawni. Yn yr un modd, gall rhai o'r sgiliau a ddisgrifir ar ddechrau'r continwwm gael eu harddangos yn hollol briodol gan oedolion ifanc.

Mae'r fframwaith yn rhagdybio bod y sgiliau a nodwyd ym mhob cam dilyniant wedi cael eu dangos – ar lefel syml, o leiaf – gan ddysgwyr cyn iddyn nhw symud ymlaen i'r cam nesaf. Mae dilyniant yn rhywbeth cronol yn ogystal â rhywbeth sy'n gysylltiedig â her gynyddol yn yr adnoddau a ddefnyddir, y cysyniadau a archwilir a'r cyd-destunau y datblygir y sgiliau ynddyn nhw.

² **Egwyddor:** Math penodol o sgil, sy'n datod y manylion manach sydd â rhan yn natblygiad pob maes sgiliau. Yn y fframwaith sgiliau rhoddir yr egwyddorion mewn teip amlwg yn y golofn ar y chwith.

Sylwer: Yn y fframwaith sgiliau mae adran Datblygu rhif y fframwaith yn cyfeirio at yr egwyddorion hyn fel llinynnau.

³ **Cell:** Pwynt penodol ar hyd dilyniant egwyddor sy'n dangos cam yn y dilyniant hwnnw. Mae'n adlewyrchu ymddygiadau neu ddeilliannau tebygol mewn ymateb i her addas.

Sut mae dilyniant yn natblygiad sgiliau yn cael ei ddehongli gan y DASDau?

Mae'r DASDau wedi defnyddio cyd-destunau sy'n berthnasol i'r rhan fwyaf o ddysgwyr Blwyddyn 5 ac sy'n addas o ran eu canolbwynt a'u her i gwricwlwm yr ysgol ar gyfer Blwyddyn 5. Yn y ffordd yma, wrth i ddysgwyr gynnal eu gweithgareddau, gellid cysylltu eu hymddygiad a'u deilliannau ag egwyddorion a chelloedd unigol o fewn egwyddor.

Sut y dangosir dilyniant yn natblygiad sgiliau yn y DASDau?

Mae pob thema neu weithgaredd yn dechrau â thabl sy'n dangos sut mae'r gweithgaredd yn cysylltu gyda'r egwyddorion yn y fframwaith sgiliau. Teitl hwn yw 'Cysylltiadau â'r fframwaith sgiliau' ac mae'n dangos yr egwyddorion sy'n brif ffocws, ffocws achlysurol a'r rheiny sydd heb ddim ffocws bwriadol. Fel arweiniad yn unig y rhoddir y categorïau hyn o egwyddorion, gan ei bod yn debygol y gellid canolbwyntio ar egwyddorion eraill yn hytrach na'r rhai a enwyd.

Llafaredd

- Datblygu gwybodaeth a syniadau
- Cyflwyno gwybodaeth a syniadau

Darllen

- Defnyddio strategaethau darllen i ddod o hyd i wybodaeth, ei dewis a'i defnyddio
- Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd

Ysgrifennu

- Trefnu syniadau a gwybodaeth
- Ysgrifennu'n gywir

Cyfathrebu ehangach

- Cyfleu syniadau ac emosiynau
- Cyfleu gwybodaeth

Allwedd

- Prif ffocws
- Ffocws achlysurol
- Dim ffocws bwriadol

Mae'r gweithgareddau'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos ymddygiadau a deilliannau. Ceir enghreifftiau o'r meini prawf tasg-benodol hyn yn adran 'Beth i chwilio amdano' ar gyfer pob gweithgaredd. Nid yw'r meini prawf a roddir yn rhestr gyflawn a bydd dysgwyr yn dangos llawer o'u rhai nhw eu hunain. Er hynny, maen nhw'n rhoi arweiniad i athrawon ar sut y gallai dysgwyr ddangos tystiolaeth o ddilyniant sgiliau.

Mae'r canllawiau i athrawon perthnasol wedyn yn dangos sut y gallai'r meini prawf tasg-benodol yma gysylltu gyda chelloedd unigol yn y fframwaith sgiliau. Ceir enghreifftiau o hyn yng ngwaith dysgwyr o'r arbrofion datblygu a'r peilotiaid mewn ysgolion ar draws Cymru.

Nid yw cysylltu tystiolaeth, o ymatebion dysgwyr, gyda chelloedd penodol yn y fframwaith sgiliau yn wyddor fanwl gywir. Gall un darn o dystiolaeth yn hawdd arddangos nifer o feini prawf tasg-benodol, sydd, yn unigol, yn cysylltu â mwy nag un gell; a gellid, felly, ei ddefnyddio i gynorthwyo i arddangos cyrhaeddiad mewn mwy nag un gell o fewn egwyddor.

Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol ar gyfer Blwyddyn 5 | Trosolwg

Yn yr un modd, gallai un darn o dystiolaeth dysgwr arddangos cyrhaeddiad mewn celloedd o fewn mwy nag un egwyddor.

Bydd y fethodoleg y bydd athrawon yn ei defnyddio i asesu cynnydd dysgwyr yn gwahaniaethu o un dosbarth i'r llall. Bydd yn ddibynnol ar y dysgwyr, amgylchedd y dosbarth, canolbwynt penodol yr athro/athrawes a'r adnoddau sydd ar gael. Er mwyn asesu'r prosesau mae dysgwyr yn eu defnyddio i gyrraedd eu deilliannau, bydd yn fuddiol, ar adegau, gwrandao ar drafodaethau dysgwyr gyda'u cyfoedion.

Efallai bydd athrawon yn dymuno nodi dysgwyr penodol i ganolbwyntio arnyn nhw cyn dechrau gweithgaredd, gan y byddai'n anodd, yn llawer o'r gweithgareddau, asesu'r dysgwyr i gyd yr un pryd.

Mosaigau – Cynllunio teils | Datblygu rhif

Mae'r diagram hwn yn dangos sut y gall gwaith y dysgwyr ddarparu tystiolaeth ar gyfer asesu **Defnyddio rhifau**. Mae'r sylwadau sydd wrth ochr gwaith y dysgwyr hefyd yn cysylltu'r dystiolaeth â'r egwyddor **Trafod ac esbonio gwaith**.
Dyma sut mae'r egwyddor **Defnyddio rhifau** yn ymddangos yn y fframwaith sgiliau.

Defnyddio rhifau	Defnyddio rhifau mewn gemau a gweithgareddau chwarae rôl.	Defnyddio rhifau cyfan mewn sefyllfaoedd ymarferol; defnyddio ffraciynau yng nghyd-destun siâp syml. Adnabod a defnyddio darnau arian o wahanol werthoedd.	Defnyddio degolion yng nghyd-destun arian a mesurau; defnyddio rhifau negyddol yng nghyd-destun tymheredd; defnyddio ffraciynau a chanrannau i amcangyfrif, disgrifio a chymharu cyfrannau o un cyfan mewn cyd-destunau ymarferol.	Defnyddio cymhareb a chyfrannedd mewn cyd-destunau ymarferol, gan gynnwys cyfraddau cyfnewid arian, gwerth am arian a chreu darluniau i raddfa.	Defnyddio rhifau cyfan, degolion, ffraciynau, canrannau, rhifau negyddol, cymhareb a chyfrannedd mewn amrywiaeth o ffyrdd, mewn cyd-destunau ymarferol, gan gynnwys lluniadau, mapiau a chynlluniau ar raddfa.	Darllen a deall ffyrdd o ysgrifennu rhifau bach iawn a mawr iawn.

Beth i chwilio amdano (meini prawf tasg benodol):
Wrth iddyn nhw gynllunio a chreu eu teils eu hunain a/ neu wrth ddefnyddio Cynllunio Mosaigau

oedd y dysgwyr yn gallu:

- defnyddio rhif fel un o'u meini prawf cynllunio neu gyfrif nifer y sgwariau a'r trionglau a ddefnyddiwyd mewn patrwm penodol?

oedd y dysgwyr yn gallu:

- defnyddio ffraciynau syml i ganfod cyfran teilsen sydd wedi'i thwyllu a defnyddio rhif a chyfrannedd yn rhai o'u meini prawf cynllunio?

Michael

Cafodd Michael fwynhad wrth llwio'r teils, ond cyfyngwyd ei waith rhif i gyfrif y sgwariau hynny sydd wedi'u llwio'n gyfan gwbl neu'n rhannol (Defnyddio rhifau, Cell 1).

Wrth drafod ei waith â'i athrawes, roedd Michael yn gallu enwi'r siapiau yn y sgwariau oedd wedi'u llwio'n rhannol fel trionglau a hefyd egluro bod mwy o deilsen wedi'i gorchuddio pan oedd sgwâr cyfan wedi'i llwio na phan oedd ond hanner ohoni wedi'i llwio. Fodd bynnag, dim ond llwyddo i wneud y cymariaethau mwyaf syml o ran arwynebedd wnaeth Michael a methodd â dweud faint o arwynebedd oedd wedi'i orchuddio â thri hanner sgwâr neu ragor heb help (Trafod ac esbonio gwaith, Cell 1).

Carys

Mae Carys wedi llwyddo i gyfuno hanner sgwariau yn gywir i ganfod y nifer cyfatebol o sgwariau cyfan sydd wedi'u llwio ar ei theilsen gyntaf. Mae hi hefyd wedi defnyddio ffraciynau syml i nodi'r gyfran o bob teilsen sydd wedi'i llwio (Defnyddio rhifau, Cell 2).

Wrth iddi adrodd yn ôl, llwyddodd Carys i wneud cymariaethau rhwng y teils yn ôl nifer y sgwariau oedd wedi'u llwio, gan nodi'n benodol bod tair o'r teils yn debyg oherwydd, 'Maen nhw'n hanner a hanner ac maen nhw ond yn defnyddio sgwariau', ond bod yr un arall yn wahanol oherwydd, 'Mae'n defnyddio tri llw ac mae rhai yn drionglau' (Trafod ac esbonio gwaith, Cell 2).

Datblygiadau i'r dyfodol

Yng ngwanwyn 2010, bydd APADGOS yn darparu DASDau pellach, ar gyfer athrawon Blwyddyn 5, fydd yn seiliedig ar 'weithgareddau cyflawn', pob un yn ymdrin â mwy nag un o'r meysydd datblygu sgiliau.

Mae APADGOS hefyd wrthi'n datblygu deunyddiau ar y we i roi enghreifftiau o arfer da mewn datblygu meddwl ar draws y pynciau a'r meysydd pwnc, gan gynnwys deunyddiau thematig trawsgwricwlaidd. Bydd y wefan yn ymdrin ag ymarfer o Gyfnodau Allweddol 2 a 3 yn bennaf a bydd ar gael o haf 2009.

Rhestr o adnoddau DASDau

Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol ar gyfer Blwyddyn 5 – Trosolwg

Datblygu meddwl

Canllawiau i athrawon

Llyfr gweithgareddau

CD-ROM (yn cynnwys cyflwyniadau PowerPoint, ffeiliau amlgyfrwng a fersiynau PDF o'r deunyddiau uchod ar gyfer Datblygu meddwl)

Datblygu cyfathrebu

Canllawiau i athrawon

Llyfrau gweithgareddau:

Wynebau (a CD-ROM cysylltiedig)

Crefft y cyfarwydd (a CD-ROM cysylltiedig)

Poster A3 – Yr Americanaid Brodorol yn dweud stori

Llyfryn stori – *Y Tri Mab Fferm*

CD-ROM (yn cynnwys fersiynau PDF o'r deunyddiau uchod ar gyfer Datblygu cyfathrebu)

Datblygu rhif

Canllawiau i athrawon

Llyfrau gweithgareddau:

Moseigau (a CD-ROM cysylltiedig)

Amser (a CD-ROM cysylltiedig)

Dinasfawr

Ddoe a heddiw

Codau cyfrin

Clociau

Poster – Map A3 Dinasfawr

CD-ROM (yn cynnwys fersiynau PDF o'r deunyddiau uchod ar gyfer Datblygu rhif)

Cydnabyddiaethau

Mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) yn ddyledus i'r athrawon hynny a'u dysgwyr, mewn ysgolion ledled Cymru, am eu diddordeb a'u parodrwydd i gymryd rhan mewn treialu a pheilotiaid, ac am eu hadborth defnyddiol.

Hoffai APADGOS hefyd ddiolch i'r cyflenwyr allanol sydd wedi eu comisiynu i ddatblygu'r adnoddau hyn:

- Centre for Research in Primary Science and Technology (CRIPSAT) ym Mhrifysgol Lerpwl
- Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA).

Mae eu timau ymroddedig wedi chwarae rhan fawr iawn mewn cynhyrchu'r syniadau y tu ôl i'r adnoddau ac mewn gweithio'n agos gydag ymarferwyr i fireinio'r adnoddau newydd.